## ADRODDIAD I'R CABINET

**Dyddiad y cyfarfod:** 15 Rhagfyr 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

**Swyddog Cyswllt:** Gwern ap Rhisiart – Swyddog Addysg Ardal Dwyfor Meirionnydd

**Teitl yr eitem**: Ysgol newydd yng Nghricieth – cynyddu cyllideb cyfalaf y prosiect

---

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

Ceisir caniatâd y Cabinet i:

1.1 Symud adnoddau o fewn y rhaglen gyfalaf a chynyddu'r gyllideb ar gyfer y prosiect i adeiladu Ysgol Newydd yng Ngricieth er mwyn cyfarch y costau ychwanegol sydd wedi eu hadnabod wrth gynllunio'r ysgol ar y safle ffafredig newydd yng Nghricieth, gan wireddu hynny drwy drosglwyddo £380,000 o gyllideb y Prosiect Ôl-16, sy'n rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) er mwyn cyfarch y costau ychwanegol sydd wedi eu hadnabod wrth gynllunio'r ysgol ar safle newydd yng Nghricieth.

1.2 Tanysgrifennu'r swm cyfalaf o £220,000 er mwyn sicrhau darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant 30 awr fel rhan o'r Ysgol Newydd yng Nghricieth pe na bai unrhyw ffynhonnell gyllidol arall ar gael gan Lywodraeth Cymru fyddai'n cyd-fynd gydag amserlen y prosiect.

### 2. CEFNDIR

2.1 Wrth gyflwyno '*Cais Strategol Amlinellol*' am arian o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) i Lywodraeth Cymru yn 2017, clustnodwyd cyllideb o £4.97m ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth fel rhan o raglen cyfalaf gwerth £56.14m gyda chyfraniad o £37.46m gan Llywodraeth Cymru a £18.68m o arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd.

2.2 Yn ystod cyfarfodydd Panel Adolygu Lleol yng Nghricieth, trafodwyd nifer o safleoedd posibl ar gyfer lleoli'r ysgol newydd gan gynnwys y safle presennol ynghyd â lleoliadau eraill a oedd wedi eu hadnabod ar y cyd gyda'r Corff Llywodraethol. Yn dilyn gwerthusiad o'r safleoedd, bu i'r Panel gytuno ar Safle A497 fel y safle ffafredig.

2.3 Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2020, bu i'r Cabinet gymeradwyo cynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli yr ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

2.4 Yn unol â chymeradwyaeth y Cabinet, mae cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig yn cael ei gynnal ar hyn o bryd (6 Tachwedd – 18 Rhagfyr 2020). Ni fydd yr adroddiad yma yn rhagfarnu y broses trefniadaeth ac yn benodol yr ymgynghoriad.

## 3. RHESYMAU DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD:

3.1 Yn dilyn cwblhau trafodaethau prynu tir, addasiadau i'r ffordd a chynllunio'r ysgol ar y safle mae costau ychwanegol wedi eu hadnabod sy'n golygu y bydd angen cynyddu cyllideb y prosiect os am wireddu'r gwaith ychwanegol yma. Gellir gweld y costau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â'r safle yn y tabl isod.

| Rheswm am y cynydd yn y gyllideb | Cyllid ychwanegol sydd ei angen | Ffynhonnell | Llywodraeth Cymru | Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| Prynu tir ychwanegol | £80,000 | Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif | £52,000 | £28,000 |
| Addasu'r ffordd er mwyn creu mynediad i safle a diogelwch cyrraedd y safle ar droed | £100,000 | Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif | £65,000 | £35,000 |
| Creu darpariaeth ynni gwyrdd er mwyn gwneud yr ysgol yn carbon isel | £100,000 | Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif | £65,000 | £35,000 |
| Costau 'sub-station trydan' a symud gwifrau trydan | £100,000 | Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif | £65,000 | £35,000 |
| **Cyfanswm** | **£380,000** | | **£247,000** | **£133,000** |

3.2 Er mwyn ein galluogi i gyfarch y cost ychwanegol yn y tabl uchod bydd angen trosglwyddo £380,000 o gyllideb y prosiect Ol-16 o fewn y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i Brosiect Ysgol Newydd yng Nghricieth. Ni fydd unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor gan fydd cyfanswm cyllideb y rhaglen yn ei gyfanrwydd, ac felly gyfraniad y Cyngor, yn parhau yr un fath.

3.3 **Blynyddoedd Cynnar**
Mae gan Lywodraeth Cymru raglen gyfalaf ar wahân i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif ar gyfer datblygu darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, sef Rhaglen Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant. Mae'r arian cyfalaf hwn yn gyllid 100% sy'n golygu nad oes angen unrhyw arian cyfatebol gan y Cyngor.

3.4 Yn anffodus, ni fu cais ar gyfer arian cyfalaf i Lywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yng Nghricieth yn llwyddiannus, ac ar hyn o bryd,

mae'r arian cyfalaf sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant yng Ngwynedd wedi ei ymrwymo'n llawn i gynlluniau eraill ar draws y sir.

3.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eu cefnogaeth inni gynnwys adnodd blynyddoedd cynnar yn ein cynlluniau yng Nghricieth a'u cefnogaeth mewn egwyddor i ariannu'r datblygiad os ddaw ffynhonnell ariannol addas ar gyfer cyfarch y gost i fodolaeth yn y dyfodol.

3.6 Byddwn yn parhau i bwyso ar y Llywodraeth am gymorth grant i gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar yn yr ysgol newydd ond pe byddem yn aros i weld a fydd adnodd grant ar gael byddai yna oedi sylweddol ar y cynllun. Byddai'n fuddiol gallu parhau ar y sail ein bod am gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar ond yn amlwg pe na byddem yn gallu sicrhau cymorth grant ni fyddai yna adnodd ar gyfer talu am y ddarpariaeth honno.

3.7 Felly er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer sicrhau darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar fel rhan o ddatblygiad yr ysgol newydd yng Nghricieth, gofynnir i'r Cyngor danysgrifennu'r swm o £220,000 tuag at sicrhau darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar fel rhan o'r ysgol newydd yng Nghricieth pe na bai ffynhonnell gyllidol gan Lywodraeth Cymru ar gael fyddai'n cyd-fynd gydag amserlen y prosiect.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, byddwn yn paratoi achos fusnes yn unol â chanllawiau *Pum Cam y Trysorlys*, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Rhagfyr 2020.

4.2 Bydd yn ofynnol i'r achos fusnes gynnwys yr holl wybodaeth am gostau arfaethedig y prosiect, a beth yw'r ffynhonnell gyllidol ar eu cyfer er mwyn sicrhau cymeradwyaeth i ryddhau'r cyllid perthnasol o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i ddatblygu'r ysgol newydd yng Nghricieth.

4.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr achos fusnes mewn cyfarfod penodol yn mis Ionawr 2021.

### Barn y Swyddogion Statudol

### Swyddog Monitro Statudol

Fel y nodir yn yr adroddiad nid yw'r hyn a gynigir yn rhagfarnu y broses trefniadaeth ond yn cynrychioli camau priodol paratoi ar gyfer symud y cynnig ymlaen o'i gymeradwyo.

### Swyddog Cyllid Statudol

Mae sawl risg ynghlwm â phrosiectau cyfalaf fel hyn, ac yn yr achos yma bydd raid i'r Cyngor gynyddu ei gyfraniad er mwyn sicrhau'r ysgol newydd yng Nghricieth, gyda darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant fel rhan ohono.

Rwy'n fodlon i drosglwyddo £380,000 o gyllideb y Prosiect Ôl-16 i gyfarch y costau ychwanegol, ac hefyd cytunaf ei fod yn synhwyrol i'r Cyngor danysgrifennu'r swm o

£220,000 er mwyn gallu symud ymlaen yn ddi-oed eleni gyda'r prosiect cyfalaf yng Nghricieth.

Wrth danysgrifennu'r swm o £220,000 dylai'r Cabinet ofyn i'r swyddogion perthnasol barhau i geisio dylanwadu er mwyn uchafu'r grant gan Lywodraeth Cymru yn 2021/22 ar gyfer ariannu'r darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant yn y drefn arferol.